*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 143(9AZA) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

**2023 Rhif (Cy. )**

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

# Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Personau y Mae'n Ofynnol Iddynt Ddarparu Gwybodaeth, a Chyflwyno Hysbysiadau) (Cymru) 2023

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae paragraff 5(1B) o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("y Ddeddf") yn darparu y caiff cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru ("awdurdod bilio") gyflwyno hysbysiad i bersonau penodol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â hereditament yn ardal yr awdurdod bilio hwnnw. Mae'r personau hynny'n cynnwys person sy'n cynnal busnes mewn perthynas â'r hereditament hwnnw, o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu disgrifiadau o'r mathau o fusnes a gynhelir gan berson mewn perthynas â hereditament.

Maent hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y caiff awdurdod bilio beri bod hysbysiad yn cael ei gyflwyno i berson y mae paragraff 5(1D) o Atodlen 9 i'r Ddeddf yn gymwys iddo.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau

hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 143(9AZA) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

---

# 2023 Rhif (Cy. )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Personau y Mae'n Ofynnol Iddynt Ddarparu Gwybodaeth, a Chyflwyno Hysbysiadau) (Cymru) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan baragraff 5(1D)(c) o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**), ac a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraffau 5F(1) a 5F(2)(b)(**2**) o'r Atodlen honno ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**3**).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 143(9AZA) o'r Ddeddf honno(**4**).

---

(**1**) 1988 p. 41; mewnosodwyd paragraffau 5(1B) i 5(1D) o Atodlen 9 gan adran 151(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) ("Deddf 2021").

(**2**) Mewnosodwyd paragraff 5F gan adran 72(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26).

(**3**) Trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mharagraff 5F i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**4**) Mewnosodwyd adran 143(9AZA) gan adran 151(10) o Ddeddf 2021. Gweler hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Personau y Mae'n Ofynnol Iddynt Ddarparu Gwybodaeth, a Chyflwyno Hysbysiadau) (Cymru) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2023.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod bilio" ("*billing authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communication" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(**1**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

mae i "hereditament" yr ystyr a roddir i "hereditament" yn adran 64 o'r Ddeddf.

**Disgrifiad o bersonau y mae'n ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth**

**3.** At ddiben paragraff 5(1D)(c) o Atodlen 9 i'r Ddeddf, caiff awdurdod bilio gyflwyno hysbysiad i berson sy'n cynnal busnes fel—

(a) person sy'n darparu gwasanaethau sy'n ymwneud ag ardrethu annomestig i berson o fewn paragraff 5(1D)(a) a (b) o Atodlen 9 i'r Ddeddf;

(b) ymgymerwr dŵr neu ymgymerwr carthffosiaeth o fewn ystyr Deddf y Diwydiant Dŵr 1991(**2**);

(c) trawsgludwr nwy o fewn yr ystyr a roddir i "gas transporter" gan adran 7 (trwyddedu trawsgludwyr nwy cyhoeddus) o Ddeddf Nwy 1986(**3**);

(d) cyflenwr nwy o fewn yr ystyr a roddir i "gas supplier" gan adran 7A (trwyddedu cyflenwyr nwy a chludwyr nwy) o Ddeddf Nwy 1986(**4**);

---

(**1**) 2000 p. 7; diwygiwyd adran 15(1) gan baragraff 158 o Atodlen 17 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21).

(**2**) 1991 p. 56.

(**3**) 1986 p. 44; amnewidiwyd adran 7 gan adran 5 o Ddeddf Nwy 1995 (p. 45). Diwygiwyd adran 7(1) wedi hynny gan adran 76(2) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 (p. 27). Nid yw diwygiadau eraill a wnaed i adran 7 yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**4**) Mewnosodwyd adran 7A gan adran 6(1) o Ddeddf Nwy 1995 (p. 45). Diwygiwyd is-adran (2) wedi hynny gan baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyfleustodau 2000 (p. 27).

(e) dosbarthwr trydan o fewn yr ystyr a roddir i “electricity distributor” gan adran 6 (trwyddedau sy’n awdurdodi cyflenwi, etc.) o Ddeddf Trydan 1989(**1**);

(f) cyflenwr trydan o fewn yr ystyr a roddir i “electricity supplier” gan adran 6 o Ddeddf Trydan 1989(**2**);

(g) darparwr cyfathrebiadau cyhoeddus o fewn yr ystyr a roddir i “public communications provider” gan adran 151(1) (dehongli Pennod 1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**3**).

**Cyflwyno hysbysiadau**

**4.**—(1) Heb ragfarnu adran 233 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**4**) (cyflwyno hysbysiad gan awdurdodau lleol) ac yn ddarostyngedig i baragraff (4), caiff awdurdod bilio gyflwyno hysbysiad i unrhyw berson y mae paragraff 5(1D) o Atodlen 9 i’r Ddeddf yn gymwys iddo—

(a) drwy ei ddanfon â llaw i’r person;

(b) drwy ei adael ym mhriod gyfeiriad y person;

(c) drwy ei anfon i briod gyfeiriad y person drwy’r post;

(d) drwy ei anfon at y person drwy gyfathrebiad electronig.

(2) At ddibenion paragraff (1), priod gyfeiriad person yw—

(a) yn achos corff corfforedig, cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa’r corff;

(b) yn achos partneriaeth, cyfeiriad prif swyddfa’r bartneriaeth;

(c) yn unrhyw achos arall, cyfeiriad hysbys olaf y person.

(3) Mae’r hysbysiad i’w drin fel pe bai wedi ei ddanfon â llaw o dan baragraff (1)(a)—

(a) yn achos corff corfforedig, os yw’n cael ei ddanfon â llaw i ysgrifennydd neu glerc y corff;

(b) yn achos partneriaeth, os yw’n cael ei ddanfon â llaw i bartner neu berson sydd â rheolaeth

---

Diwygiwyd is-adran (3) gan adran 149(7) o Ddeddf Ynni 2004 (p. 20). Nid yw diwygiadau eraill a wnaed i adran 7A yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1989 p. 29; amnewidiwyd adran 6 gan adran 30 o Ddeddf Cyfleustodau 2000 (p. 27). Diwygiwyd adran 6(1)(c) wedi hynny gan Ran 1 o Atodlen 23(1) i Ddeddf Ynni 2004 (p. 20). Nid yw diwygiadau eraill a wnaed i adran 6 yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(**2**) Diwygiwyd adran 6(1)(d) gan O.S. 2012/2400. Nid yw diwygiadau eraill a wnaed i adran 6 yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(**3**) 2003 p. 21.

(**4**) 1972 p. 70.

dros fusnes y bartneriaeth neu sy’n rheoli busnes y bartneriaeth.

(4) Pan fo unrhyw hysbysiad i’w gyflwyno i berson a bennir ym mharagraff 5(1D)(a) neu (b) o Atodlen 9 i’r Ddeddf, caniateir cyfeirio’r hysbysiad hwnnw at “perchennog” neu “meddiannydd” yr hereditament, heb enw na disgrifiad pellach.